

Adroddiad arolygu Gwasanaethau *Oedolion*

Cyngor Sir Ceredigion

Tudalen cynnwys

Cyflwyniad	3
Trosolwg o'r canfyddiadau	3
Argymhellion	5
Dimensiwn Allweddol 1: Mynediad – gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan gynnwys ymyrraeth gynnar ac ataliaeth	6
Dimensiwn Allweddol 2: Asesiad	13
Dimensiwn Allweddol 4: Diogelu ac amddiffyn	16
Dimensiwn Allweddol 5: Arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant	20
Methodoleg	25
Diolchiadau	25

Cyflwyniad

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ag arolygiad peilot o wasanaethau i oedolion yng Nghyngor Sir Ceredigion ym mis Hydref 2016. Diben yr arolygiad peilot oedd galluogi AGGCC i brofi a dysgu o ddull diwygiedig ar gyfer arolygu awdurdodau lleol. Cyflwynodd y fethodoleg newydd fwy o bwyslais ar ddeall i ba raddau mae'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol yn gwella canlyniadau i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Canolbwyntiodd yr arolygiad ar brofi gallu ein dulliau arolygu diwygiedig i werthuso canlyniadau ar gyfer oedolion a'u gofalmwr sy'n defnyddio'r awdurdod lleol ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan gynnwys cymorth ymyrraeth gynnar ac ataliaeth. Yn gyfochrog â'r ffocws hwn, gwnaethom hefyd ystyried yr hyn yr oedd yr awdurdod yn ei ddeall ynghylch ei berfformiad ei hun a'r gwahaniaeth yr oedd yn ei wneud i'r bobl yr oedd yn ceisio eu cynorthwyo, eu cefnogi a'u hamddiffyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad yn ystod cyfnod o newid sylweddol: gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ym mis Ebrill 2014 a chyflwyno system cofnodi electronig newydd – System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

Er hynny, cyfrannodd yr awdurdod yn weithgar at yr adolygiad o'n dulliau fel rhan o asesiad ei berfformiad ei hun. Roedd yr awdurdod yn gadarnhaol ynghylch defnyddio'r paratoad am arolygiad fel cyfle pellach i bwysu a mesur ei gynnydd er gwaethaf cyflwyno ffyrdd newydd o weithio yn ddiweddar yn yr awdurdod.

Nod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yw cynorthwyo'r awdurdod a'i bartneriaid yn eu gwaith o wella parhaus.

Trosolwg o'r canfyddiadau

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion raglen drawsnewid ar waith er mwyn dechrau newid ei wasanaethau i ddiwallu'r heriau o ran cynaliadwyedd ariannol a gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf, a roddwyd ar waith ym mis Ebrill 2016, yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu, cyflenwi a chynnal gwasanaeth ar gyfer rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddinasyddion yn eu hardal mewn perthynas â gofal a chymorth i oedolion a chefnogaeth i ofalmwr. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod angen cymorth ac anogaeth ar gymunedau i'w galluogi i ddod yn fwy hunanwydn ac yn llai dibynnol ar wasanaethau statudol.

Mae rhaglen drawsnewid yr awdurdod yn cynnwys model gweithredu newydd. Bydd hyn yn cynyddu'r ffocws ar atal ac yn sicrhau bod gan ddinasyddion fynediad at wybodaeth a chynghor fel eu bod yn gallu helpu eu hunain. Mae'r model hefyd yn cynnwys yr opsiwn o asesiadau cymesur a chynhwysfawr a allai arwain at ddarparu gofal a chymorth. Mae'r awdurdod wedi dechrau cydweithio â'r bwrdd iechyd lleol a rhai partneriaid yn y trydydd sector i ddatblygu modelau cyflenwi eraill. Mae canlyniadau gwirioneddol o'r gwaith hwn, fodd bynnag, yn gyfyng. Mae'n rhaid i'r

awdurdod fachu cymorth pellach y sector annibynnol a'r trydydd sector i gyflawni ei weledigaeth.

Mae'r cyfarwyddwr yn cyfathrebu'n effeithiol ledled y gwasanaeth, ac roedd cydweithwyr corfforaethol, aelodau etholedig a'r staff i gyd yn deall ac yn ymroddedig i'r weledigaeth. Rhoddir cryn bwyslais ar y rhaglen drawsnewid ar hyn o bryd, gyda rhywfaint o fanylder ategol. Mae angen cyd-drefnu llifoedd gwaith penodol â dyddiadau gweithredu a champau er mwyn cefnogi'r nodau lefel uchel. Bydd hyn yn sicrhau bod y staff yn parhau i ymhél â'r newid gwasanaeth arfaethedig.

Canfuom amrywiaeth yn ansawdd yr ymatebion a dderbyniwyd gan rai o'r bobl oedd yn ceisio gwybodaeth, cyngor a chymorth trwy ganolfan gyswllt y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd canlyniadau arolygon cwsmeriaid yn gadarnhaol, gan ddangos bod rhywfaint o bobl yn fodlon y diwallwyd eu ceisiadau. Derbyniodd cysylltiadau diogelu ymateb cyflym a chynhwysfawr. Fodd bynnag, profodd rhywfaint o ofalwyr oedi o ran derbyn ateb, ac nid oedd y cymorth a roddwyd yn diwallu eu canlyniad gofynnol.

Canfuom fod yr awdurdod yn ymroddedig i ddarparu eiriolwyr i gefnogi pobl, ond nid oedd trefniadau ar waith i sicrhau darpariaeth y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon.

Roedd rhywfaint o wybodaeth yn yr Offeryn Asesu a Chymhwysra Cenedlaethol yn fanwl a gwelsom enghreifftiau o asesiadau cynhwysfawr a gwaith cymdeithasol da i helpu pobl i gyflawni canlyniadau. Fodd bynnag, ni wnaeth rhai o'r cofnodion nodi 'yr hyn oedd o bwys' na chynnwys canlyniad yr asesiad ac, ar brydiau, ymddangosai eu bod yn canolbwyntio ar y dasg yn hytrach na'r unigolyn.

Roedd dogfennau diogelu yn cynnwys manylion ynghylch sut yr oedd risg yn cael ei asesu a'i reoli. Roedd hyn yn cynnwys herio partneriaid eraill ynghylch sut yr oedd risgiau yn cael eu rheoli. Nid oedd asesiadau eraill, fodd bynnag, yn cynnwys asesiad risg i gynorthwyo â'r gwaith o flaenoriaethu ymatebion.

Nid oedd rhai cofnodion diogelu yn gyfredol, ac ni ddarparwyd sesiynau goruchwyllo ffurfiol yn rheolaidd i'r staff diogelu. Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr a sicrwydd ansawdd yn gyfyng.

Cefnogir y staff trwy gyfleoedd dysgu a datblygu rheolaidd. Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn wybodus, yn gadarnhaol ac yn ymroddedig i ddiwallu canlyniadau i bobl, ac mae angen dangos hyn yn well trwy gofnodi'n glir yn y broses asesu. Roedd y staff yn ymroddedig i weithredu model gweithredu newydd yr awdurdod a gweledigaeth yr awdurdod o'r dyfodol ar gyfer dinasyddion Ceredigion.

Argymhellion

	Argymhelliad	Dimensiwn Allweddol
1.	Ymgysylltu ag ystod eang o asiantaethau'r trydydd sector i helpu i ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau ataliol ar gyfer dinasyddion.	Mynediad
2.	Datblygu cynllun i ddiwallu'r gofynion i gynnig a darparu eiriolwyr yn unol â'r Ddeddf.	Mynediad
3.	Adolygu a gwella'r amseroldeb a'r dull a ddefnyddir i ddarparu gwybodaeth ac asesiadau ar gyfer gofalwyr.	Asesiad
4.	Datblygu a gweithredu proses sicrwydd ansawdd effeithiol ar gyfer asesiadau.	Asesiad
5.	Sicrhau bod yr asesiad yn cynnwys cofnod o unrhyw risgiau i bennu'n effeithiol cymesuredd yr ymateb ac unrhyw ofal a chymorth gofynnol.	Asesiad
6.	Adolygu amseroldeb cofnodi yn y tîm diogelu oedolion a darparu adroddiad ynghylch sut y bydd unrhyw welliant angenrheidiol yn cael ei gyflawni.	Diogelu ac amddiffyn
7.	Datblygu cynllun i gynyddu cyfleoedd diogelu ac atal, gan gynnwys hyfforddiant a chymorth ar gyfer unrhyw wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth mewnol neu allanol arfaethedig a allai gefnogi'r awdurdod yn y gwaith o gyflenwi ei agenda ataliol.	Diogelu ac amddiffyn
8.	Gweithredu'r polisi goruchwyllo i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i gynnal safonau uchel yn ystod cyfnodau o newid.	Arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant
9.	Cryfhau llif gwaith i feithrin perthnasau â'r sector annibynnol a'r trydydd sector i gyflymu'r gwaith o ddatblygu adnoddau cymunedol i gyfannu model gweithredu newydd yr awdurdod.	Arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant

Bydd ymateb yr awdurdod i unrhyw argymhellion a wnaed yn cael ei ddilyn gan reolwr ardal AGGCC yn ystod y cyfarfodydd ymgysylltu ac adolygu perfformiad a drefnir trwy gydol y flwyddyn.

Dimensiwn Allweddol 1: Mynediad – gwybodaeth, cyngor a chymorth, ymyrraeth gynnar ac ataliaeth

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu, deall, cyd-drefnu, cadw'n gyfredol a gwneud y defnydd gorau o wybodaeth, cymorth ac adnoddau cyngor o'r sector statudol, gwirfoddol a phreifat sydd ar gael yn yr ardal. Mae pob unigolyn yn gallu cael mynediad at wybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau a derbyn cyngor a chymorth cyflym, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwyster a beth allent ddisgwyl o ran ymateb gan y gwasanaeth. Mae trefniadau'n effeithiol o ran oedi neu rwystro'r angen am ofal a chymorth. Mae pobl yn ymwybodol o fannau cyswllt allweddol ac yn gallu eu defnyddio'n rhwydd. Mae'r gwasanaeth yn gwrando ar bobl. Mae cyfeirio ac atgyfeirio effeithiol yn cynnig dewis i bobl ynghylch cymorth a gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, yn enwedig gwasanaethau ataliol. Mae partneriaid a'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth yn deall trefniadau mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol statudol ac mae'r rhain yn gweithredu'n effeithiol.

Yr hyn a ganfuom

- 1.1. Mae'r ganolfan gyswllt yn gweithredu fel pwynt mynediad unigol ac yn borth at wasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod sydd wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd. Cefnogir cysylltiadau a wneir 'y tu allan i oriau'r swyddfa' gan y gwasanaeth *Careline*, a gomisiynir gan yr awdurdod, a chan dîm gwaith cymdeithasol 'y tu allan i oriau'r swyddfa'. Roedd gan bartneriaid ddealltwriaeth eglur o rôl y ganolfan gyswllt ac roeddent i gyd yn gadarnhaol am ei pherfformiad yn cyfeirio pobl yn llwyddiannus. Dangosodd y ffeiliau achos a adolygwyd fod llwybrau atgyfeirio yn cael eu defnyddio'n briodol. Cafodd cysylltau diogelu eu hamlygu'n gyflym i'r tîm diogelu oedolion a chafwyd ymateb gwaith cymdeithasol cadarnhaol a di-oed.
- 1.2. Dangosodd gwybodaeth berfformio a gynhyrchwyd gan y System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru newydd y derbyniwyd 3,357 o alwadau mewn perthynas ag oedolion rhwng 1 Ebrill a 31 Awst 2016. Arweiniodd 1,100 o'r galwadau hyn at ddarparu gwybodaeth neu gyngor syml cyn i'r alwad ddarfod. Aeth tua 2,000 o'r galwadau hyn yn 'gais am gymorth' ac fe'u hatebwyd gan wasanaeth ymyrraeth a dargedir a gwasanaethau gofal a chymorth wedi'u cynllunio yr awdurdod. Yn ogystal, deliodd y ganolfan gyswllt â nifer fawr o alwadau (2,556) ynghylch bathodynau glas – bydd y swyddogaeth hon yn symud o wasanaethau cymdeithasol i dîm gofal cwsmeriaid y gwasanaethau corfforaethol yn fuan.
- 1.3. Dywedodd y gwasanaeth 'y tu allan i oriau'r swyddfa' ei fod yn cael ei gefnogi'n effeithiol gan y gwasanaeth *Careline*, a gomisiynir gan yr awdurdod i

ymateb i alwadau gan y cyhoedd. Mae *Careline* yn ymdrin ag oddeutu 100 galwad y mis gan weithwyr proffesiynol a dinasyddion. Mae staff *Careline* wedi derbyn hyfforddiant ynghylch Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a dywedwyd eu bod yn rhoi lefel ddigonol o fanylion i alluogi'r tîm 'y tu allan i oriau' i wneud penderfyniadau am yr angen am ymateb brys neu ymweliad dilynol trannoeth. Mae *Careline* yn ffonio'r staff 'y tu allan i oriau'r swyddfa' ar hyn o bryd ac yn darparu cofnod trwy neges e-bost ddilynol am nad oes system cofnodion ar y cyd. Nid ydynt yn cwblhau dogfen asesu.

- 1.4. Mae staff y ganolfan gyswllt yn gofyn i bobl 'beth sydd o bwys iddynt' ac yn sgorio'r lefel angen rhwng 1 a 4 yn seiliedig ar ganllawiau Continwmm Gofal yr awdurdod. Mae'r sgôr hon yn cael ei chofnodi yn yr e-bost sy'n ategu'r asesiad cychwynnol i'r timau ardal i'w dyrannu. Yn yr asesiadau cychwynnol a archwiliwyd gan arolygwyr, ni chofnodwyd y sgôr yn rheolaidd. Gallai hyn arwain at y posibilrwydd o ofyn cwestiynau sawl gwaith i bobl ynghylch lefel eu hangen a dylid mynd i'r afael â hyn.
- 1.5. Dywedwyd wrthym fod Panel Ceisiadau am Wasanaethau yr awdurdod yn ystyried pa mor dda yr ystyriwyd rhwystrau ac atebion i'w trechu yn gyfochrog â chyflleoedd i ailgyfeirio pobl at ddulliau neu wasanaethau addas eraill cyn caniatáu costau. Dywedwyd bod adborth yn cael ei drosglwyddo i'r sawl sy'n cwblhau asesiadau. Fodd bynnag, dylid defnyddio dull mwy rhagweithiol gyda chanllawiau pellach i'r staff a threfniadau sicrwydd ansawdd mwy strwythuredig o'r asesiadau.
- 1.6. Ymddangosai fod trothwyon ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael eu cymhwyso'n anghyson ac nid oeddent o reidrwydd yn gysylltiedig â'r agenda ataliol. Nid adolygwyd y trothwyon yn ffurfiol gan y rheolwr.
- 1.7. Roedd ansawdd yr ymatebion yn anghyson mewn perthynas â gofalwyr. Mewn un achos, ymatebwyd ar unwaith i gais am becyn i ofalwr. Mewn achos arall, disgrifiodd gofalwr y diffyg gwybodaeth, cyngor a chymorth a ddarparwyd iddo a'r rhwystredigaeth a deimlodd o ganlyniad. Profodd ei wraig, a hithau hefyd yn ofalwr, effaith wirioneddol ar ei gallu i weithio, ond ni chynigiwyd asesiad gofalwr iddi.
- 1.8. Soniodd nifer o staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd am eu rôl eu hunain wrth ddarparu gwybodaeth a chyngor fel rhan o'u gwaith. Mae'r Gwasanaeth Ymyrraeth a Dargedir yn darparu cymorth a chyngor tymor byr ac yn aml yn cyfeirio unigolion at sefydliadau eraill. Gwnaeth timau sy'n darparu gofal a chymorth a gynllunnir ar sail tymor hirach, gan gynnwys gwasanaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl, hefyd ddisgrifio rôl yn y gwaith parhaus o ddarparu gwybodaeth a chyngor i hyrwyddo a chynnal annibyniaeth.

- 1.9. Dywedodd staff yn y tîm diogelu oedolion mai ymateb i faterion amddiffyn oedd eu swyddogaeth allweddol, ond gwnaethant bwysleisio eu rôl ataliol. Gwelsom fod gweithwyr proffesiynol yn cynnal trafodaethau ataliol, ond prin oedd y dystiolaeth a welsom o drafodaethau uniongyrchol â phobl yn y sampl y gwnaethom ei hadolygu.
- 1.10. Roedd staff y ganolfan gyswllt wedi mynychu hyfforddiant ochr yn ochr â gweithwyr cymdeithasol mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), eiriolaeth a diogelu ac maent wedi dechrau cymhwyster Lefel 4 mewn Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Soniodd y staff eu bod yn derbyn cymorth anffurfiol da ar gyfer eu gwaith gyda'u goruchwyliwr yn gweithio yn gyfochrog â nhw. Dangosodd rhai o'r cofnodion a archwiliwyd fod y staff wedi ceisio a derbyn arweiniad. Mae amlder sesiynau goruchwyllo ac arfarnu ffurfiol wedi cael ei effeithio gan faterion capasiti ac nid ydynt wedi cael eu gweithredu yn unol â pholisi goruchwyllo'r awdurdod. Mae'r awdurdod yn disgwyl y bydd materion capasiti yn lleddfu gyda'r trefniadau sydd ar y gweill i aildrefnu rhywfaint o swyddogaethau rhwng gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau corfforaethol, e.e. symud gwaith gweinyddu'r bathodynau glas. Adroddodd y staff eu bod wedi derbyn cefnogaeth dda yn ystod cyfnod gweithredu System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.
- 1.11. Mae hwyluswyr y trydydd sector yn eistedd wrth ymyl staff y ganolfan gyswllt unwaith y pythefnos i rannu eu gwybodaeth am weithgareddau grwpiau cymunedol lleol. Gallai hyn fynd i'r afael â rhywfaint o sylwadau gwnaethom eu derbyn ynghylch yr angen i'r staff yn y ganolfan gyswllt fod â mwy o wybodaeth, ac unrhyw wasanaeth atal y trydydd sector yn y dyfodol, i sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at yr asiantaeth a allai eu helpu orau.
- 1.12. Roedd staff yn yr awdurdod yn gadarnhaol ynghylch y ganolfan gyswllt, er y gwnaethom dderbyn rhywfaint o sylwadau ynghylch yr angen i wella ansawdd y wybodaeth a ddarperir i weithwyr dyletswydd, a oedd weithiau'n gorfod cymryd camau dilynol i gael mwy o fanylion. Nodwyd lefelau bodlonrwydd da o'r arolygon cwsmeriaid yr oedd yr awdurdod yn eu hanfon at bob degfed unigolyn oedd yn ffonio. Roedd sylwadau cadarnhaol ar gyfer y ddau chwarter cyntaf yn 2016 yn cynnwys:

"Ateb defnyddiol iawn gan ddynes wnaeth fy helpu i ddeall yn glir beth oedd yn rhaid i mi ei wneud ac yna postiodd hi'r holl ffurflenni ac ati ataf. Gwnes i eu derbyn yn gyflym iawn gyda chyfarwyddiadau clir arnynt" ac "Roeddwn i'n gallu teimlo'r wên garedig ar ochr arall y ffôn."

- 1.13. Mae'r awdurdod yn cydnabod y gallai natur wledig y sir beri anawsterau o ran cael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth, ac mae swyddogion y gwasanaethau cymdeithasol yn trafod datrysiadau â chydweithwyr cyfathrebu

corfforaethol. Mae gwefan yr awdurdod ar fin cael ei hadolygu gan rai o aelodau grwpiau ymgynghori â dinasyddion sefydlog yr awdurdod.

- 1.14. Mynegodd nifer o bobl y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad bryder ynghylch y gwaith o gyd-drefnu gwasanaethau gwybodaeth amryfal, gan ofyn sut y bydd dinasyddion yn pori drwyddynt i ddod o hyd i wasanaeth y bydd o'r budd mwyaf iddynt. Clywsom am *infoengine*, adnodd ar-lein y trydydd sector, a'r wefan *Dewis* sydd ar ddod, a fydd yn gweithredu fel y prif borth gwybodaeth a dull hunangymorth ar gyfer dinasyddion y sir. Yn ogystal â chanolfan gyswllt y gwasanaethau cymdeithasol, mae'r ganolfan gofal cwsmeriaid gorfforaethol a'r gwasanaeth dan ddatblygiad, 'cynghrair atal y trydydd sector', hefyd yn darparu gwybodaeth. Mae'n bosibl y bydd goblygiadau ar gyfer dyblygu, cynnal gwybodaeth gyfredol am adnoddau a'u hargaeledd, a/neu'r risg o wybodaeth groes. Nid oedd rhai o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'r pwynt cyswllt unigol, ac yn lle byddent yn ffonio staff cyfredol neu flaenorol a wnaeth eu helpu. Bydd angen i'r awdurdod gryfhau ei strategaeth gyfathrebu i atal pobl rhag cael eu trosglwyddo rhwng pwyntiau cyswllt a gorfod disgrifio'r hyn sydd o bwys iddynt ar fwy nag un achlysur.
- 1.15. Mae'r awdurdod yn darparu gwybodaeth yn ddwyieithog. Mae holl staff y ganolfan gyswllt a'r staff 'y tu allan i oriau'r swyddfa' yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r awdurdod yn annog defnyddio siaradwyr Cymraeg a, lle bo'n angenrheidiol, bydd manylion y swydd yn galw am ymroddiad i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg o fewn dwy flynedd. Ystyrir sgiliau Cymraeg mewn timau sydd ohoni wrth ddosbarthu staff a myfyrwyr. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion a archwiliwyd yn System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru wedi cofnodi'r iaith ddewisol yn gyson, felly nid oedd yn amlwg a ddarperir y 'cynnig gweithredol'. Roedd y staff yn ymwybodol o anghenion iaith cymunedau arbennig a gwnaethant roi enghreifftiau o ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu Pwyleg.
- 1.16. Cyfeiriodd staff y cyfwelwyd â nhw yn ystod yr arolygiad yn aml at ddefnyddio eiriolaeth, a gwnaethant nodi nad oedd anawsterau o ran sicrhau eiriolwyr. Fodd bynnag, roedd trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth eiriolaeth y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon yn aneglur. Mae cytundeb eiriolaeth tymor byr wedi cael ei estyn fel mesur dros dro ac mae cymorth yn cael ei sicrhau ar hyn o bryd gan ddefnyddio cytundebau ar y pryd neu hyrwyddo'r defnydd o wasanaeth eiriolaeth anffurfiol a gynigir gan y trydydd sector, yn aml trwy wasanaethau galw heibio. Mae'r awdurdod wedi nodi bod angen dull mwy cadarn arno i ddiwallu anghenion y Ddeddf, gan ymateb i heriau ynghylch natur wledig y sir a chost.

- 1.17. Roedd ansawdd yr ymatebion a ddarparwyd i ofalwyr oedd yn ceisio gwybodaeth a chynghor yn gymysg. Roedd rhai o'r ffeiliau achos a welsom a rhai o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw ynglŷn â'u profiad o'r ganolfan gyswllt yn anfodlon ar y wybodaeth a'r cynghor a ddarparwyd. Dywedodd pobl eraill eu bod wedi derbyn gwybodaeth a chynghor da gan uned gofalwyr yr awdurdod. Dywedwyd bod y cynnydd yn niferoedd y gofalwyr yr oedd yr awdurdod yn ymwybodol ohonynt ac yr oedd wedi cofrestru â meddygon teulu o ganlyniad i'r hyfforddiant e-ddysgu *Carer Aware*, sydd bellach yn orfodol i staff yn yr awdurdod, a'r gwaith a gyflawnwyd gyda phractisau meddygol lleol mewn cydweithrediad â'r bwrdd iechyd lleol.
- 1.18. Mae'r uned gofalwyr yn cefnogi Cynghrair y Gofalwyr, gan ddod ag ystod o bartneriaid iechyd a'r trydydd sector at ei gilydd i sicrhau dull cyffredinol i gefnogi gofalwyr. Soniodd gofalwyr fod cyd-drefnu'r llwyth o asiantaethau trydydd sector a sut y gallant helpu yn gymhleth, ac y gellid eu cyd-drefnu mewn modd mwy targededig i'w helpu i sicrhau cymorth yn well. Dywedwyd wrthym nad oedd yr holl asiantaethau yn rhan o Gynghrair y Gofalwyr. Rhoddodd gofalwyr enghraifft o'r 'cyhoeddiad jig-so' a oedd wedi symleiddio'r wybodaeth ar eu cyfer yn gadarnhaol.
- 1.19. Gwelsom rai enghreifftiau o waith yr awdurdod gyda phartneriaid i ddatblygu dulliau ataliol. Mae cyfarfod rhannu gwybodaeth amlasiantaethol rheolaidd yn digwydd yn ne'r sir gyda meddygon teulu, ac mae trafodaethau â phartneriaid y trydydd sector wedi canolbwyntio ar gynyddu cydweithredu. Mae'r awdurdod wedi llywyddu dau weithdy yn yr hydref i archwilio trefniadau comisiynu a chydweithredu er mwyn llunio ffyrdd newydd o weithio. Er bod partneriaid y trydydd sector yn deall hinsawdd ariannol gyfredol yr awdurdod, maent yn feirniadol o'r model comisiynu cyfredol, sy'n defnyddio cytundebau tymor byr. Gwnaethant nodi nad yw'r rhain yn cefnogi cynaliadwyedd a datblygiad tymor hirach y gwasanaethau ataliol.
- 1.20. Gwelsom fod datblygu gwasanaethau ataliol yn canolbwyntio'n gyfyngedig ar gynghrair atal y trydydd sector, a fydd yn cael ei gweithredu gan bum asiantaeth. Roedd dal angen cadarnhau manylion ynghylch dyddiad gweithredu arfaethedig a chyfathrebu â'r ganolfan gyswllt gyfredol a'r gwasanaethau cwsmeriaid corfforaethol, ynghyd â chysylltiadau â gweddill asiantaethau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol. Hyd yn hyn, nid ymgysylltwyd â dinasyddion yn y gwaith o ddatblygu gwasanaeth cynghrair atal y trydydd sector sydd ar ddod.
- 1.21. Gwelsom fod dadansoddiad o anghenion y boblogaeth a dadansoddiad o safle'r farchnad leol wedi dechrau ac y dylid eu datblygu ymhellach. Amlygodd y dadansoddiad bresenoldeb nifer sylweddol o wahanol grwpiau'r

trydydd sector sy'n gweithredu yng Ngheredigion y gallai'r awdurdod o bosibl ddymuno eu targedu ar gyfer prosiectau cydweithredu'r dyfodol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- Roedd yr holl staff y siaradwyd â nhw wedi'u hyfforddi'n dda ac yn hyderus yn eu gallu i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan gynnwys y rheini oedd yn gweithio yn y ganolfan gyswllt. Roedd y staff yn gallu adnabod ac ymateb yn gyflym i faterion diogelu. Ymddengys fod yr amrywiaeth yn ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan y ganolfan gyswllt yn effeithio ar allu rhywfaint o bobl i gael mynediad at gymorth ar brydiau pan fo angen cymorth arnynt. Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth amserol i ofalwyr oherwydd canfuom fod rhai gofalwyr yn aros am fisoedd i dderbyn gwybodaeth sylfaenol ac, o ganlyniad, wedi parhau i gael trafferthion ac, ar brydiau, wedi gorfod gwneud eu trefniadau eu hunain. Mae'r awdurdod wedi hyrwyddo pecyn hyfforddiant e-ddysgu *Carer Aware*, ond byddai trafodaethau pellach ynghylch cymhwyso'r hyfforddiant mewn modd ymarferol o fewn timau gwaith cymdeithasol o bosibl o fudd i helpu i ddiwallu anghenion unigol.
- Er ei bod yn glir bod rhywfaint o bobl wedi cael eu clywed a bod ymatebion arolwg yn amlygu boddhad â'r ganolfan gyswllt, mae'r awdurdod yn cydnabod bod angen gwaith pellach i ymgorffori dull cyson, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cydbwysu cofnod manwl o'r hyn sydd o bwys i bobl gydag ymateb cymesur. Siaradodd y staff y cyfwelwyd â nhw'n aml am bobl maent yn eu gwasanaethu mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ond ni chofnodwyd hyn yn gyson yn y dogfennau a archwiliwyd.
- Mae peth tystiolaeth sy'n dangos bod cymryd cofnodion sylfaenol y tro cyntaf y gwneir cyswllt yn arwain at ymatebion mwy cyfyng y gallent beidio â bod yn foddhaol bob amser. Dywedir bod cofnodion sylfaenol yn golygu, ar brydiau, bod yn rhaid i'r swyddogion dyletswydd sy'n derbyn dyraniadau'r llwyth achosion wneud cyswllt pellach i gael mwy o wybodaeth.
- Clywsom rywfaint o bryderon o ran eglurder ynghylch rolau'r pwyntiau mynediad ychwanegol megis y ganolfan gwsmeriaid gorfforaethol a gwasanaeth cynghrair atal y trydydd sector sydd i ddod. Mae angen i'r awdurdod sicrhau nad oes angen i ddinasyddion, pobl a'u gofalwyr adrodd eu hanes ac esbonio'r hyn sydd o bwys iddynt nifer o weithiau. Gall hyn o bosibl beryglu egwyddorion a datganiad gwerthoedd yr awdurdod, sef "sicrhau bod pobl sy'n dod atom am ofal a chymorth a thriniaeth ond yn gorfod rhoi'r wybodaeth am eu hanghenion unwaith".

Argymhellion

- Ymgysylltu ag ystod eang o asiantaethau'r trydydd sector i helpu i ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau ataliol ar gyfer dinasyddion.
- Datblygu cynllun i ddiwallu'r gofynion i gynnig a darparu eiriolwyr yn unol â'r Ddeddf.

Dimensiwn Allweddol 2: Asesiad

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r holl bobl sydd â hawl i gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth yn derbyn un yn eu hiaith ddewisol. Mae pobl yn derbyn asesiad amserol o'u hanghenion sy'n hybu eu hannibyniaeth a'u gallu i wneud dewisiadau. Mae asesiadau yn ystyried canlyniadau a safbwyntiau, dymuniadau a theimladau personol yr unigolyn sy'n destun yr asesiad a rhai'r bobl berthnasol eraill, gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant. Mae hyn cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol ac yn gyson â hybu eu lles a'u diogelwch yn ogystal â lles a diogelwch pobl eraill. Mae asesiadau'n darparu dealltwriaeth glir o'r hyn a fydd yn digwydd nesaf. Mae camau gweithredu argymelledig, sy'n bwriadu cyflawni canlyniadau sydd o bwys i bobl, yn cael eu nodi ac yn cynnwys yr holl rai y gellir eu bodloni drwy wasanaethau ataliol neu gymunedol.

Yr hyn a ganfuom

- 2.1. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff fod ganddynt fynediad da at gyfleoedd dysgu a datblygu mewnol ac allanol a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu gwaith o ddydd i ddydd gan eu rheolwyr llinell uniongyrchol. Roedd y timau ardal yr ymwelwyd â nhw gan fwyaf yn gadarnhaol, ac ymddangosai fod ganddynt gymysgedd cytbwys o staff newydd eu cymhwyso, staff profiadol a myfyrwyr.
- 2.2. Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer cwblhau'r Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol newydd. Roedd trefniadau goruchwylio ansawdd gan y rheolwyr yn gyfyng. Gwelsom ddwy enghraifft lle'r oedd asesiadau'n briodol ac amserol; ysgogwyd un asesiad gan atgyfeiriad diogelu ac un arall gan feddyg teulu. Roedd amseroldeb asesiadau therapi galwedigaethol yn amrywiol, a gwelwyd rhywfaint o oedi; dywedodd y staff wrthym fod yr amserau aros rhwng chwech ac wyth wythnos. Dywedodd y staff fod eu gallu i ymateb yn gyflym a chynnal asesiadau yn y Gwasanaeth Ymyrraeth a Dargedir ac yn nhîm y de wedi cael ei effeithio gan brinder staff.
- 2.3. Mae'r Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol yn cefnogi ymateb cymesur i anghenion a pheryglon ar y pryd. Fodd bynnag, er bod rhai o'r asesiadau a welwyd wedi eu cwblhau'n gynhwysfawr, nid oedd rhai eraill wedi eu hysgrifennu mewn modd sy'n cydnabod pobl yn bartneriaid cydradd yn yr asesiad. Nid oedd llais unigolion bob amser yn amlwg. Roedd rhai o'r asesiadau yn canolbwyntio ar dasg, ac nid ar yr unigolyn. Ymddangosai fod rhai o'r asesiadau yn gyfyng o ran nodi pethau sydd wir o bwys i bobl, y rhwystrau i gyflawni'r nodau hynny, a sut i'w gorchfygu.

- 2.4. Gwnaethom nodi bod rhywfaint o'r cofnodion yn yr Offeryn Asesu a Chymhwysra Cenedlaethol newydd a ddefnyddir gan yr awdurdod yn cynnwys manylion cyfyngedig yn erbyn y pum egwyddor y mae'n rhaid eu trafod yn ystod asesiad, sef:
- asesu a rhoi sylw i amgylchiadau'r unigolyn;
 - rhoi sylw i'w ganlyniadau personol;
 - asesu a rhoi sylw i unrhyw rwystrau rhag sicrhau'r canlyniadau hynny;
 - asesu a rhoi sylw i unrhyw risgiau i'r unigolyn neu i unrhyw un arall os na chaiff y canlyniadau hynny eu sicrhau; ac
 - asesu a rhoi sylw i gryfderau a galluoedd yr unigolyn.
- 2.5. O'r achosion a welwyd, roedd rhai ohonynt yn asesiadau a gwblhawyd yn gymesur, ond byddai mwy o fanylion wedi ychwanegu gwerth ac, o bosibl, arbed gwaith pellach yn y dyfodol. Mewn un asesiad, cofnodwyd mater oedd yn effeithio ar unigolyn mewn nodiadau achos, ond ni nodwyd y mater yn rhwystr ar gyfer llesiant amgenach. Gallai cyfle i ganfod atebion i orchfygu'r rhwystr hwn wedi cynorthwyo annibyniaeth yn y tymor hirach.
- 2.6. Ni chwblhawyd offer asesu'n gynhwysfawr bob amser gan yr holl staff a oedd yn cyfrannu at yr asesiad; gwelsom enghreifftiau lle'r oedd offeryn asesu a ddechreuwyd gan staff y ganolfan gyswllt yn dangos bod angen asesiadau pellach, ond nid oedd yn cynnwys unrhyw ganlyniadau ar ôl i asesiadau pellach gael eu cwblhau. Canfuwyd cofnod o ganlyniad yr asesiad hwnnw fel cofnod ar wahân ar System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, ac roedd angen ei echdynnu o'r nodiadau achos. Mae rhywfaint o wybodaeth mewn ffeiliau papur nad yw o reidrwydd ar gael ar y system electronig.
- 2.7. Dangosodd y data perfformiad a welwyd fod yr awdurdod wedi gwella nifer yr asesiadau gofalwyr a gynigir (95%) ac a gwblheir (43%), uwchben cyfartaledd Cymru. Arweiniodd 87% o'r asesiadau at ddarparu gwasanaethau. Gwelwyd cynnydd yn nifer y gofalwyr y mae'r awdurdod yn ymwybodol ohonynt ac yn nifer y gofalwyr a gofrestrir â meddygon teulu, a dywedwyd bod hyn o ganlyniad i waith yr uned gofalwyr. Gwelsom ddwy enghraifft o asesiadau gofalwyr cynhwysfawr ac enghreifftiau eraill o oedi o ran gofalwyr yn cael asesiad, er gwaethaf y ffaith y nodwyd bod angen asesiad ac y nodwyd risg i allu gofalwr i barhau i ddarparu gofal. Mewn un achos lle'r oedd gofalwr wedi gofyn am asesiad, roedd cyfnod o oedi cyn i wybodaeth y gofalwr gael ei ddarparu ac oedi pellach ar ôl i'r person gadarnhau ei fod yn dal i ddymuno cael asesiad gofalwr (yn unol â chais yr awdurdod). Rhoddwyd y person wedi hynny ar restr aros. Roedd oedi pellach o dros dri mis cyn i gopi o'r ddogfen asesu gael ei anfon.

- 2.8. Nid oedd yr asesiadau gofalwr a welwyd bob amser yn cofnodi'r hyn sydd o bwys yn fanwl. Dywedodd rhai gofalwyr wrthym eu bod wedi profi anawsterau o ran derbyn asesiadau gofalwr gan y tîm iechyd meddwl cymunedol, a dangosodd un achos a adolygwyd oedi o ran darparu asesiad gan y tîm hwn.
- 2.9. Er bod y gwasanaeth yn gofyn am asesiadau adolygu gan banel ynghyd â'r ffurflen gais ac yn aml yn darparu adborth llafar i weithwyr cymdeithasol, mae'r awdurdod yn cydnabod nad oes proses sicrwydd ansawdd ar gyfer y broses asesu newydd. Gwnaethpwyd penodiad ar y cyd ar gyfer rheolwr sicrwydd ansawdd gan yr awdurdod a'i bartner iechyd ac mae'r awdurdod yn disgwyl y bydd deiliad y swydd yn llunio cynllun i fynd i'r afael â hyn.
- 2.10. Gwelsom rywfaint o enghreifftiau lle nad oedd asesiadau'n mynd i'r afael yn briodol â'r mater o risg ac, yn aml, ni wnaeth y staff gynnwys hyn i bennu cymesuredd yr ymateb.
- 2.11. Gwelsom ddefnydd da o asesiadau risg mewn perthynas â diogelu, gan gynnwys atgyfeirio priodol i ac ymgysylltiad yn y broses o gynadledda asesu risg amlasiantaethol.
- 2.12. Ar y cyfan, dangosodd yr achosion a archwiliwyd fod arferion rhannu gwybodaeth da yn digwydd yn ystod asesiadau ac mewn ymateb i faterion diogelu.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- Gwelsom rai enghreifftiau lle'r oedd canlyniadau da wedi cael eu cyflawni i bobl trwy waith partner ac arferion gwaith cymdeithasol effeithiol. Nid oedd bob amser yn amlwg, serch hynny, sut yr oedd dymuniadau a theimladau pobl yn cael eu cynrychioli yn y broses. Yr her i'r awdurdod yw cyflawni cydbwysedd rhwng cymesuredd asesu a chofnodi a'r dystiolaeth fanwl y mae ei hangen i gefnogi gweithio parhaus gyda phobl. Dylai hyfforddiant, cymorth a gwaith gwerthuso pellach ganolbwyntio ar y materion hyn. Nid oedd gwaith y rheolwyr o oruchwylio'r dull asesu newydd a chynnwys asesiad risg i helpu i bennu'r ymateb angenrheidiol yn gadarn. Gwelsom amrywiaeth mewn ymateb i gymorth i ofalwyr. Bydd yr awdurdod yn dymuno ystyried mecanweithiau sicrhau ansawdd i gefnogi'r staff i gofnodi'r hyn sydd o bwys i bobl.

Argymhellion

- Adolygu a gwella'r amseroldeb a'r dull a ddefnyddir i ddarparu gwybodaeth ac asesiadau ar gyfer gofalwyr.
- Datblygu a gweithredu proses sicrhau ansawdd ar gyfer asesiadau.
- Sicrhau bod yr asesiad yn cynnwys cofnod o unrhyw risgiau i bennu'n effeithiol cymesuredd yr ymateb ac unrhyw ofal a chymorth angenrheidiol.

Dimensiwn Allweddol 4: Diogelu ac amddiffyn

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae strategaethau diogelu lleol effeithiol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol. Pan fo pobl yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, esgeulustod neu niwed, maent yn derbyn ymatebion aml-asantiaeth brys sydd wedi'u trefnu'n dda. Ni chaiff pobl eu gadael mewn amgylcheddau anniogel neu beryglus.

- 4.1. Gwelsom enghreifftiau o ddiogelu amlasiantaethol effeithiol yn digwydd. Mae trefniadau eglur rhwng y tîm diogelu oedolion ac adrannau mewnol eraill yr awdurdod gan gynnwys y gwasanaeth 'y tu allan i oriau'r swyddfa'. Dangosodd yr achosion a archwiliwyd gyfathrebu effeithiol rhwng gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion.
- 4.2. Mae trefniadau pendant gyda phartneriaid allanol lleol a rhanbarthol ar gyfer materion diogelu gweithredol a strategol. Disgrifiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a gwasanaeth Heddlu Dyfed–Powys berthnasau gweithio cadarnhaol â'r awdurdod, gan gynnwys parodrwydd yr awdurdod i gynnal trafodaethau a darparu cyngor. Dangosodd tystiolaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad hwn ynghylch arfer gweithredol ymatebion amlasiantaethol da i adroddiadau oedolion mewn perygl a gwaith ar y cyd mewn perthynas â'r ymholiad a/neu ymchwiliad canlyniadol.
- 4.3. Mae gwaith amlasiantaethol yn amrywiol ledled y rhanbarth mewn perthynas ag arfer ataliol. Mae arfer Ceredigion yn wahanol i arfer awdurdodau lleol eraill yn yr un ardal gwasanaeth heddlu gan fod yr awdurdod yn gwirio'r holl ddigwyddiadau o gam-drin domestig y mae'r heddlu wedi delio â nhw ac wedi eu hanfon at yr awdurdod er gwybodaeth yn unig fel rhan o'u proses hysbysu awtomatig. Mae'r tîm diogelu oedolion yn asesu pob hysbysiad a dderbynnir i nodi unrhyw anghenion am asesiad ar gyfer gofal a chymorth neu fesurau diogelu ac atal ychwanegol. Er bod hyn wedi cynyddu'r galw ar dîm diogelu oedolion yr awdurdod, nid oedd dadansoddiad ar gael o ran effeithiolrwydd y dull hwn tuag at ymyrraeth gynnar. Nid oedd, er enghraifft, cofnod o'r nifer o achosion hysbysu awtomatig a adolygwyd gan y tîm a gafodd wedi hynny asesiadau pellach neu ymyrraeth ddiogelu gan yr awdurdod lleol.
- 4.4. Gwelsom fod yr holl adroddiadau ynghylch oedolion mewn perygl yn cael eu cyfeirio at y ganolfan gyswllt a'u trosglwyddo'n effeithiol i swyddog dyletswydd y tîm diogelu ac ymlaen i gael eu dosbarthu ymhlith timau mewnol eraill. Mae'r staff yn sôn eu bod yn cymhwyso'r trothwyon yn fwy cyson ers cyflwyno'r system sgrinio ganolog gan y tîm diogelu. Er bod yr awdurdod yn ymateb yn gyflym, mae llai o gapasiti ledled nifer o dimau gwaith cymdeithasol wedi arwain at gynnydd yn llwyth gwaith y tîm diogelu, gydag effaith ar amseroldeb cofnodi achosion. Roedd gweithiwr cymdeithasol locwm yn darparu ychydig o gapasiti ar adeg yr arolygiad; fodd bynnag, dangosodd nifer o achosion a

archwiliwyd gofnodion a ddisgrifiwyd yn 'ôl-weithredol'. Cadarnhaodd drafodaeth â'r rheolwr diogelu nad oedd yr holl gofnodion yn gyfredol, er y dywedwyd bod rhywfaint o gofnodion heb eu cwblhau i fod i gael adolygiad ansawdd cyn cau'r achos. Mae hyn yn cyflwyno risg uniongyrchol i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt ac i bobl eraill sydd ynghlwm os nad yw gwybodaeth a geisir gan staff eraill, gan gynnwys staff sy'n gweithio 'y tu allan i oriau'r swyddfa', yn gyfredol. Mae angen gwella arferion cofnodi.

- 4.5. Dangosodd adolygiadau achosion a thrafodaeth â staff gysylltiadau eglur rhwng gwasanaethau cwyno a diogelu'r awdurdod ac mae cynlluniau i gyfnerthu hyn gyda phrotocol ar y cyd. Nodwyd oedi gan staff iechyd i arfer eu dyletswydd i roi adroddiadau, lle nad oedd materion diogelu wedi cael eu nodi ar unwaith pan oeddent wedi'u cynnwys mewn cwynion ynghylch gwasanaethau iechyd yr oedd y gweithwyr iechyd wedi eu derbyn ac wrthi'n ymchwilio iddynt.
- 4.6. Mae'r rheolwr wedi'i leoli gyda'r tîm diogelu ac yn gallu darparu cyngor rheolaidd sy'n cynorthwyo cysondeb o ran trothwyon; gwerthfawrogir hyn gan staff yn yr awdurdod a phartneriaid. Mae cymorth anffurfiol ar gael ar gyfer staff yn y tîm diogelu ac mae'r staff yn sôn bod ganddynt fynediad da at gyfleoedd dysgu a datblygu perthnasol i gefnogi eu gwaith. Mae sesiynau ynglŷn â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), asesu budd pennaf, galluedd meddyliol a gweithredu fel swyddog cymorth amddiffyn oedolion yn enghreifftiau o'r hyfforddiant a wneir. Mae'r awdurdod yn ystyried secondiad treigl tri mis i'r tîm diogelu. Bydd angen cydbwysu buddion y cyfnewid sgiliau hwn gyda gallu'r rheolwr i ddarparu cyfle addysgu cadarnhaol ar gyfer y secondai o ystyried y galw presennol ar y tîm.
- 4.7. Ni chynhaliwyd sesiynau goruchwyllo ac arfarnu ffurfiol ar gyfer y rheolwr diogelu a staff yn y tîm diogelu. Rhaid mynd i'r afael â hyn ar fyrder.
- 4.8. Mae rhywfaint o hyfforddiant diogelu wedi'i ddarparu yn yr awdurdod, a chynllunnir sesiynau pellach; mae mecanwaith ar gyfer hyfforddiant diweddar wrthi'n cael ei ystyried. Dywedwyd bod system cofnodi hyfforddiant yn darparu gwell oruchwyliaeth o nifer y staff sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu. Darperir hyfforddiant diogelu ar gyfer aelodau etholedig sy'n craffu ar waith yr awdurdod. Mae'r rheolwr yn cydnabod bod mwy i'w wneud o ran hyfforddi'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach i alluogi'r awdurdod i gyflawni ei rôl atal. Bydd hyn yn hanfodol ar gyfer cynghrair atal y trydydd sector.
- 4.9. Mae'r gallu i gyflawni gwaith ataliol yn gyfyng ac yn effeithio ar allu'r awdurdod i leihau risg yn effeithiol. Mae rhywfaint o staff nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cynnal ymchwiliadau diogelu fel rhan o'r broses ddiogelu amlasiantaethol lle bo'n briodol; fodd bynnag, amlygodd rhai achosion oedi sylweddol o ran cwblhau ymchwiliadau gan weithwyr iechyd. Mae anawsterau o ran nodi capasiti mewn iechyd i ymgymryd ag ymchwiliadau yn arwain at oedi

yn y broses ddiogelu. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd yr awdurdod wedi herio partneriaid iechyd ynghylch oedi o'r fath ac ynghylch mesurau rheoli risg ar gyfer staff yr honnwyd eu bod wedi niweidio pobl. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth bod dylanwad strategol wedi ei arfer i effeithio ar welliannau cynaliadwy o ran materion diogelu gweithredol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar bobl.

- 4.10. Dangosodd ffeiliau achos fod yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran atgyfeirio achos at gynhadledd asesu risg amlasiantaethol i leihau risgiau yn y dyfodol.
- 4.11. Nid oes systemau rhybuddio ffurfiol ar gyfer adroddiadau 'oedolyn mewn perygl' mynych; yn hytrach, mae trafodaethau rhwng staff yn y tîm diogelu a'r ganolfan gyswllt yn amlygu cysylltiadau mynych. Nid oedd cronolegau ar gael yn hawdd i gefnogi staff, ond mae'r awdurdod wedi dechrau cofnodi achosion ar System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn ddiweddar, a allai roi cyfle i archwilio sut y gellid dod â digwyddiadau sylweddol ynghyd i ddangos profiadau diogelu pobl.
- 4.12. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod anghysondeb o ran cynnwys oedolion yn y broses ddiogelu. Roedd tystiolaeth gyfyngedig mewn achosion a adolygwyd bod pobl yn gwybod beth fydd yn digwydd nesaf neu beth sydd ynghlwm wrth y broses ddiogelu. Roedd tystiolaeth gyfyngedig o gynlluniau amddiffyn neu gynlluniau gofal a chymorth gyda mesurau amddiffyn oedolion mewn perygl yn y sampl fach o ffeiliau achos a adolygwyd. Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o drafodaethau ag oedolion a/neu eu gofalwyr ac mae rhai oedolion yn derbyn gwahoddiad i fynychu eu cynhadledd achos eu hunain; dangosodd adolygiad achos fod rhai'n cael eu gwahodd ac yn gwrthod ond gwnaeth eraill fynychu. Disgrifiodd yr awdurdod sut yr addasir cyfarfodydd i helpu pobl i gymryd rhan. Ni welsom enghreifftiau o'r defnydd o eiriolaeth yn yr achosion a adolygwyd, ond cyfeiriodd staff ledled yr awdurdod yn aml at y cynnig o eiriolaeth i gynorthwyo pobl i gyfrannu'n llawn.
- 4.13. Dangosodd gwybodaeth rheoli perfformiad fod Ceredigion wedi cofnodi yn 2015-16 bod 100% o'r atgyfeiriadau oedolion mewn perygl a gwblhawyd wedi arwain at y perygl yn cael ei reoli, a gwelsom fod yr awdurdod wedi ymateb yn gynhwysfawr yn yr achosion y gwnaethom eu hadolygu. Fodd bynnag, hysbysodd y rheolwr fod rhai o'r achosion ar gyfer 2016-17 dim ond wedi cael eu cwblhau'n rhannol a'u gadael ar agor. Roedd nifer o achosion yn aros am adolygiad terfynol ac am gael eu cau, ac felly roedd sicrwydd ansawdd yn anghyflawn.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- Mae'r awdurdod yn defnyddio strategaethau diogelu priodol i ymateb i adroddiadau ynghylch oedolion mewn perygl ac ymholiadau trwy'r tîm diogelu

oedolion a staff ledled yr adran gwasanaethau i oedolion. Siaradodd staff yn gadarnhaol am y cymorth a chynghor a ddarperir gan y tîm diogelu. Mae trefniadau effeithiol ar waith, gyda thrafodaethau amlasiantaethol a threfniadau rhannu gwybodaeth da yn ystod y camau ymholi ac ymchwilio. Er bod asesu hysbysiadau o gam-drin domestig yn cynyddu galw ar y tîm, gall ddarparu cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar a dylid ei werthuso. Gwelwyd arfer da yn y sampl fach o achosion a adolygwyd, ond cysgodwyd hyn gan ddiffyg capasiti yn y tîm diogelu, gan arwain at waith ataliol cyfyng, cofnodi ôl-weithredol, a pheidio â sicrhau ansawdd/cau achosion mewn da bryd. Mae hyn yn tanseilio'r gwaith o gyflenwi gwasanaeth diogelu cynhwysfawr. Roedd cynnwys pobl yn y broses ddiogelu yn anghyson a gellid gwella yn hynny o beth. Mae gan yr awdurdod gynlluniau i gynyddu ei rôl mewn diogelu ac atal trwy addysg ac i gynyddu cymorth i'r rhai sydd ynghlwm wrth gyflawni swyddi'r rheolwr arweiniol dynodedig a'r swyddog ymchwilio. Mae'n rhaid i'r awdurdod weithio yn awr tuag at weithredu o fewn amserlen gynlluniedig.

Argymhellion

- Adolygu amseroldeb cofnodi yn y tîm diogelu oedolion a darparu adroddiad i nodi sut y bydd unrhyw welliannau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.
- Datblygu cynllun i gynyddu cyfleoedd atal a diogelu, gan gynnwys hyfforddiant a chymorth ar gyfer unrhyw wasanaethau gwybodaeth, cynghor a chymorth mewnol neu allanol ar ddod a allai gefnogi'r awdurdod yn y gwaith o gyflenwi ei agenda ataliol.

Dimensiwn Allweddol 5: Arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant gyda'i gilydd yn sefydlu strategaeth effeithiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau a chanlyniadau o ansawdd da ar gyfer pobl. Mae bodloni anghenion pobl am wasanaethau o ansawdd yn ffocws clir ar gyfer cynghorwyr, rheolwyr a staff. Mae gwasanaethau'n cael eu harwain yn dda, mae'r cyfeiriad yn glir, ac mae arweinyddiaeth o ran newid yn gryf. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i gyflenwi cymorth, gofal a chefnogaeth i bobl. Mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u comisiynu i wella canlyniadau ar gyfer pobl unigol, adlewyrchu angen y gymuned, a mynd i'r afael ag egwyddorion allweddol o fewn y boblogaeth leol. Caiff gwaith gyda phartneriaid wrth lunio patrwm a chyflenwad y gwasanaethau ei lywio gan safbwyntiau a phrofiadau pobl sy'n defnyddio neu a allai fod ag angen defnyddio gwasanaethau. Darperir gwasanaethau gan weithlu profiadol a medrus, sy'n meddu ar gymwysterau addas ac sy'n gallu adnabod ac ymateb i anghenion mewn modd amserol ac effeithiol.

Yr hyn a ganfuom

Cyfeiriad y gwasanaethau

- 5.1. Mae'r awdurdod wedi mynd trwy waith ailstrwythuro sylweddol o fewn y 12 mis diwethaf, gyda lleihad yn nifer y swyddi yn yr uwch dîm rheoli. Mae newidiadau staff yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys cyfarwyddwr, pennaeth gwasanaeth a thri rheolwr gwasanaeth newydd. Yn ogystal, mae rhai swyddi gwag yn y timau ardal wedi arwain at adnoddau'n cael eu hestyn ledled gwasanaethau i oedolion. Mae'r cyfarwyddwr yn datgan bod y gwaith ailstrwythuro wedi rhoi cyfle i'r adran adolygu a gweithredu newidiadau yn unol â demograffeg, anghenion pobl a heriau ariannol sy'n newid.
- 5.2. Mae'r awdurdod wedi gwneud defnydd sylweddol o werthusiad a gwblhawyd gan arbenigwyr masnachol yn 2015-16, gan ddatblygu rhaglen drawsnewid heriol a helaeth. Mae'r awdurdod yn bwriadu ymgorffori ethos y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ymarferol a chreu cyfleoedd ariannol i ailgynllunio gwasanaethau i ddiwallu angen a galw'r dyfodol yn well yng Ngheredigion. Mae adroddiad blynyddol 2015-16 y cyfarwyddwr yn amlinellu'r weledigaeth a gwerthoedd ar gyfer dinasyddion.
- 5.3. Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn ystod yr arolygiad yn deall y rhesymeg dros newid a'r weledigaeth waelodol o ran 'model gweithredu targedau'. Mae'r staff wedi derbyn gwybodaeth a hyfforddiant ynghylch y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac mae'r cyfarwyddwr wedi hyrwyddo gweithredu'r Ddeddf fel cyfrifoldeb corfforaethol ledled yr awdurdod – cadarnhawyd hyn gan aelodau etholedig. Prin oedd y cyfeiriadau at Ddeddf

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y gallai ei hegwyddorion hefyd gyfannu dull cydweithrediadol, tymor hir, ataliol yr awdurdod.

- 5.4. Gwelsom dystiolaeth dda bod y cyfarwyddwr yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r staff, gan gynnwys trwy gyfrwng e-byst, llythyrau, gweithdai a thrafodaethau mewn cyfarfodydd, a bod hysbysiadau ynghylch adroddiadau a chynlluniau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ac i'r Cabinet. Gwerthusodd yr awdurdod ei gynhadledd '*Gwneud i Bethau Ddigwydd*' i asesu dealltwriaeth sylfaenol ac ar ôl y gynhadledd o'r weledigaeth a chanfod bod y staff yn ymwybodol ohoni ac wedi cynyddu eu dealltwriaeth ymhellach. Cynlluniwyd cynhadledd bellach, wedi'i hanelu'n benodol at ymarferwyr, ar gyfer yr hydref lle byddai arbenigwyr masnachol yn helpu'r staff i ymgorffori ffyrdd newydd o weithio.
- 5.5. Mae'r rhaglen drawsnewid sydd ar waith yn gosod nodau lefel uchel. Gwelsom lifoedd gwaith yn cael eu cynllunio'n gynnar ac yn awr mae'n rhaid i'r awdurdod gadarnhau manylion trefnu a blaenoriaethu'r gweithgareddau trawsnewid. Mae risgiau posibl yn cynnwys cyfathrebu trawsnewidiad y gwasanaethau cymdeithasol ag adrannau/cyfarwyddiaethau eraill sydd hefyd wrthi'n ail-lunio gwasanaethau.
- 5.6. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid iechyd gan ddefnyddio cyllid gofal canolraddol i ddatblygu cynghrair atal y trydydd sector i ddarparu gwybodaeth a chyngor cyn i bobl ddefnyddio canolfan gyswllt gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod ei hun – hon fydd 'cynddrws' model gweithredu newydd yr awdurdod. Yn ogystal, mae trafodaethau ar waith gyda chydweithwyr corfforaethol sy'n datblygu'r ganolfan gofal cwsmeriaid gorfforaethol ymhellach. Mae angen cryfhau cynllun cyfathrebu drafft a welwyd i roi eglurder ynghylch ystod a swyddogaeth pwyntiau cyswllt amryfal i hysbysu a sicrhau ymgysylltiad staff a phobl yr effeithir arnynt.
- 5.7. Mae'r aelodau etholedig yn deall ac yn gweithio i gefnogi'r rhaglen drawsnewid. Maent wedi mynychu hyfforddiant ac roeddent yn gallu trafod y weledigaeth ag arolygwyr – 'rydym am fynd â'r cyhoedd gyda ni' – a gwnaethant gydnabod bod 'person ar ddiwedd pob penderfyniad'.
- 5.8. Gwelsom fod gwaith partner yn digwydd ar lefel weithredol gyda rhai sefydliadau trydydd sector. Mae pum asiantaeth ynghlwm wrth wasanaeth arfaethedig cynghrair atal y trydydd sector. Mae'r prosiect yn dal i gael ei ddylunio ac felly mae gwaith partner eto i gael ei brofi. Gellid cryfhau arweinyddiaeth yn y maes hwn oherwydd bydd angen i'r awdurdod ymgysylltu'n ehangach â gwasanaethau trydydd sector ychwanegol a phartneriaid sector annibynnol er mwyn gwireddu a chynnal ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol i ddarparu ystod o wahanol opsiynau i ddinasyddion.
- 5.9. Dywedwyd bod yr agenda ataliol yn elwa oherwydd cynnydd diweddar yng nghyfranogiad gwasanaethau'r sector cyhoeddus, er enghraifft y Gwasanaeth

Tân ac Achub yn cyfrannu at ddylunio a datblygu gwasanaeth cymunedol. Dywedwyd bod gwaith gyda phartneriaid ieuchyd wedi cryfhau gan arwain at gyd-gyllido swydd sicrhau ansawdd a chyd-reoli 'hwylusydd cymunedol' y trydydd sector.

Llunio gwasanaethau

- 5.10. Defnyddiodd yr awdurdod drefniadau ymgynghori ac ymgysylltu boddhaol gan roi eglurhad manwl i ddinasyddion ynghylch y rhesymeg a'r dewisiadau eraill wrth gynllunio defnydd diwygiedig o adeilad gofal preswyl. Dywedodd aelodau etholedig eu bod, fel rhan o'u rôl, yn dylanwadu ar ei gilydd i sicrhau eu bod i gyd yn hyrwyddo gweledigaeth yr awdurdod ac yn cefnogi'r gymuned i gyfrannu er lles dyfodol yr awdurdod, gan '[g]ynorthwyo canlyniadau ar gyfer pobl yn ein wardiau ein hunain'. Gwnaeth rheolwyr ac aelodau etholedig atgyfnerthu'r neges nodedig 'Caru Ceredigion' a'i hyrwyddo i greu perchenogaeth ddinasyddol ledled y sir.
- 5.11. Gwerthusodd yr awdurdod y dulliau a ddefnyddiwyd yn ystod proses ymgysylltu fanwl ynghylch trefniadau ailgynllunio gwasanaethau yn Llandysul ar gyfer y dyfodol a defnyddiodd yr hyn a ddysgwyd wrth ymgynghori â dinasyddion ynghylch prosiectau Cylch Caron ac Awel Deg.
- 5.12. Mae'r 'hwylusydd cymunedol' a ariennir ar y cyd yn ymweld â'r timau gwaith cymdeithasol i helpu staff i adeiladu gwybodaeth am adnoddau cymunedol sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r isadeiledd cymunedol yn dal i dyfu, sy'n cyflwyno heriau i'r staff o ran dynodi adnoddau cymunedol y gallant atgyfeirio neu gyfeirio dinasyddion atynt fel cymorth arall. Dywedodd y staff wrthym y gwnaeth y bobl sy'n derbyn taliad uniongyrchol brofi anawsterau wrth benodi cynorthwywyr personol ac felly roedd hi'n anodd hyrwyddo dulliau eraill o ofal a chymorth. Nid oes cynllun i fynd i'r afael â hyn.
- 5.13. Gwnaethom nodi, er bod yr awdurdod yng nghamau cynnar y gwaith o ddatblygu ei fodel newydd, na welsom gyfeiriad clir o ran datblygu'r isadeiledd hwn y tu hwnt i'r pum asiantaeth ynghlwm wrth gynghrair atal y trydydd sector. Dylai gweithdai a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda'r trydydd sector ynghylch cydweithredu a chystadlu gael eu cysylltu yn awr â gwybodaeth adnoddau a phoblogaeth. Gwnaeth Adnodd Ystadegol Trydydd Sector 2014 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a ddefnyddiwyd gan yr awdurdod yn ei ddadansoddiad o'r farchnad, enwi 3,433 grŵp trydydd sector yng Ngheredigion. O'r rhain, roedd 1,551 o grwpiau lleol yn weithgar yng Ngheredigion, gyda 197 grŵp rhanbarthol pellach a 1,567 o grwpiau cenedlaethol pellach hefyd yn weithgar yng Ngheredigion. Cyfrifoldeb yr awdurdod yw bachu cefnogaeth i greu ei weledigaeth gymunedol, gan gyflymu'r broses o ddatblygu cynhyrchion eraill er mwyn i ddinasyddion helpu eu hunain.

Gweithlu

- 5.14. Gwelsom ystod o bolisiau i gefnogi'r staff a oedd yn amlinellu'r arferion gweithredu disgwylidig o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Dywedodd y staff eu bod yn cael eu cefnogi'n anffurfiol gyda chyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu; fodd bynnag, o ystyried maint y newid ar droed, mae cymorth strwythuredig yn hanfodol. Roedd trefniadau goruchwyllo ac arfarnu ffurfiol yn anghyson mewn rhai mannau yn dibynnu ar bwysau'r llwyth gwaith.
- 5.15. Ni ddarperir gwybodaeth am berfformiad i'r rheolwyr mewn ffordd y maent yn ei chael yn gynorthwyol ar hyn o bryd. Yn ogystal, ymddengys fod ffocws ar ailstrwythuro'r rheolaeth a'r rhaglen drawsnewid wedi effeithio ar waith y rheolwyr o fonitro'r sawl y maent yn gyfrifol amdano. Mae angen i'r awdurdod gryfhau'r trefniadau ar gyfer gwybodaeth am reoli perfformiad.
- 5.16. Siaradodd y rheolwyr am fuddion rhai cyfarfodydd dysgu gweithredol a gynhaliwyd, a oedd wedi bod yn llwyddiannus o ran darparu cymorth ar gyfer staff. Soniodd y staff eu bod wedi cael eu cefnogi'n dda yn ystod cyfnod cyflwyno System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a chan ymrwymiad parhaus yr awdurdod i hyfforddi a chyfarparu ei weithlu.
- 5.17. Dangosodd y wybodaeth am y gweithlu a ddarparwyd fod gan yr awdurdod swyddi gwag a'i fod yn defnyddio rhai gweithwyr locwm fel ymateb i gynyddu ei allu i ddod i ben â maint y gwaith.
- 5.18. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod angen cefnogi'r staff i symud trwy'r newidiadau angenrheidiol i barhau i gynyddu hyder y staff i helpu pobl i ddatblygu gwydnwch unigol a theuluol. Y bwriad yw ymrymuso'r staff i wneud penderfyniadau ar yr adeg pan fo pobl wrth y 'porth' gofal i reoli risg yn rhagweithiol. Gwelsom ymrwymiad gan y staff y siaradwyd â nhw i ymgorffori'r ffordd newydd o weithio yn eu harfer ac mae'r awdurdod yn eu cefnogi gyda chyfleoedd megis y gynhadledd staff a gynllunnir i adolygu cynnydd ar y cyd ac archwilio trefniadau gweithredu ymhellach.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- Gwelsom gefnogaeth gorfforaethol gynyddol ar gyfer gwasanaethau i oedolion. Gwelsom weledigaeth glir a rennir gan y cyfarwyddwr, er ei bod ar lefel uchel ar hyn o bryd. Roedd yr aelodau etholedig a'r holl staff y siaradwyd â nhw'n deall ac yn ymroddedig i'r weledigaeth hon a'r ffyrdd newydd o weithio o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Gwelsom ddiwylliant o ddysgu parhaus ar gyfer y staff.
- Mae blaenoriaethau llifoedd gwaith ac eglurder o ran trefnu ac amseru yn awr yn hanfodol ynghyd â mwy o oruchwyliaeth gan reolwyr er mwyn gwerthuso.

- Gwelsom effaith sylweddol ailstrwythuro'r rheolaeth a'r rhaglen drawsnewid helaeth ar sicrwydd busnes craidd megis goruchwyllo ac arfarnu, ansawdd a chysondeb cofnodi achosion, a monitro a gwerthuso newidiadau sylweddol megis cyflwyno'r Offeryn Asesu a Chymhwysra Cenedlaethol. Roedd y cyfarwyddwr yn ymwybodol 'nad yw arferion wedi newid yn hollol eto', gan gydnabod bod hyfforddiant wedi canolbwyntio ar 'ennill calonnau a meddyliau' ar gyfer y dull newydd ac mae gan y cyfarwyddwr gynlluniau i symud ymlaen gan ganolbwyntio ar werthuso.

Argymhellion

- Rhoi'r polisi goruchwyllo ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i gynnal safonau uchel yn ystod cyfnodau o newid.
- Atgyfnerthu llif gwaith i feithrin perthnasau â'r sector annibynnol a'r trydydd sector i gyflymu'r broses o ddatblygu adnoddau cymunedol i gyfannu model gweithredu newydd yr awdurdod.

Methodoleg

Hunanasesu

Cwblhaodd yr awdurdod hunanasesiad cyn cam gwaith maes yr arolygiad. Rhoddodd yr awdurdod dystiolaeth mewn perthynas â '*yr hyn rydym yn disgwyl ei weld*' o dan bob dimensiwn allweddol a arolygwyd. Defnyddiwyd y wybodaeth i lunio manylion y meysydd i'w harchwilio yn ystod yr arolygiad.

Gwaith maes

Roedd y tîm arolygu ar y safle yng Ngheredigion am bum niwrnod yn ystod wythnos ym mis Hydref 2016. Canolbwyntiodd yr arolygiad ar brofiad pobl a'u gofalwyr a'r staff sy'n gweithio yn yr awdurdod. Gwnaethom hefyd ystyried materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth a llywodraethiant (gan gynnwys gwaith partner) a llwyddiant yr awdurdod o ran llunio gwasanaethau er mwyn cyflawni canlyniadau da i bobl. Roedd gweithgareddau yn ystod y gwaith maes yn cynnwys:

- Adolygu achosion – gwnaeth arolygwyr ystyried detholiad o 20 achos, ac archwilio saith ohonynt mewn mwy o fanylder gyda phobl, gofalwyr, rheolwyr achos a phobl eraill.
- Cyfweiliadau – cynhaliodd arolygwyr nifer o gyfweiliadau grŵp ac unigol gyda phobl yn derbyn gofal a chymorth a'u teulu, gofalwyr, staff, aelodau etholedig a phartneriaid.

Gellir gweld manylion pellach ynghylch y fframwaith ar gyfer gwaith arolygu, ymgysylltu ac adolygu perfformiad awdurdodau lleol yma

<http://cssiw.org.uk/?lang=cy>

Diolchiadau

Hoffai AGGCC ddiolch i'r bobl a gyfrannodd at yr arolygiad hwn, rhieni a gofalwyr, staff a rheolwyr Cyngor Sir Ceredigion, y darparwyr gwasanaeth, a'r sefydliadau partner, gan gynnwys y trydydd sector, am eu hamser, eu cydweithrediad a'u cyfraniadau at yr arolygiad hwn.

Hoffem hefyd ddiolch i'r awdurdod am yr adborth gwerthfawr a roddodd ynglŷn â'r dulliau a'r offer peilot.